**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 10/05/21 - drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| L T Davies | D M Evans (Yn y gadair) |
| J S Jenkins | W A Roberts |
| M Davies | M Evans |
| H Clayton | G Jones |
| Cynyr Ifan | S Davies |

**Prosiect Cranogwen**

Wnaeth Anne-Marie Bollen fynychu'r cyfarfod er mwyn rhoi manylion ynglyn a'r prosiect gosod cerflun Cranogwen yn y pentref fel rhan o gynllun 'Monumental Welsh Women' (MWW). Wnaeth roi cefndir ynglyn a sut daeth y prosiect i fodolaeth. Mae Elin Jones AS wedi bod ynghlwn a'r cynllun ac yn rhan o'r pwyllgor llywio. Mae yn fwriad gan MWW i osod 5 cerflun yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf ond mae'r pandemig wedi arafu'r broses. Mae'r Pwyllgor y Prosiect sydd yn cynnwys aelodau o'r Gymuned leol wedi sicrhau cyllid oddeutu £40,000 yn barod ac mae'n fwriad ganddynt i godi £20,000 pellach – maent wedi cyrraedd dros £10,000 yn barod. Wnaeth Anne-Marie adrodd fod Elen ap Gwyn o'r Cyngor Sir wedi argymell y dylent hefyd wneud cais am grant o'r Cyngor Sir. Wnaeth roi esboniad ar sut y maent wedi apwyntio cerflunydd sef Seb Boysen ynghyd a sut y maent wedi dilyn rheoliadau angenrheidiol ynglyn a'r apwyntiad. Mae un aelod o'r pwyllgor yn gyfreithiwr ac wedi darparu Cyngor ar y broses gan hefyd sicrhau eu bod yn cadw o fewn y canllawiau priodol.
Wnaeth y Cynghorwyr ddatgan eu cefnogaeth mewn egwyddor tuag at y prosiect a chytuno gyda'r cyfle gwerthfawr yma i gydnabod yr hyn a gyflawnodd Cranogwen ynghyd a chodi proffil yr ardal. Cafwyd trafodaeth ynglyn a rhoi cymorth ariannol i'r prosiect. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Pwyllgor gyda chais iddynt gyflwyno cais am gymorth ariannol.

**Materion Personol**

Croesawyd Sioned Davies sef Clerc newydd y Cyngor i'r cyfarfod. Estynnwyd llongyfarchiadau iddi ar ei apwyntiad a dymuniadau gorau iddi yn y swydd.

Estynnwyd gwerthfawogiad i Shân am ei gwaith dros yr ugain mlynedd diwethaf. Wnaeth Shân hefyd ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a'u cymorth dros y cyfnod yma.

**Cofnodion**

Cynigiwyd cofnodion mis Ebrill yn gywir gan y Cyng J S Jenkins ac ategwyd hyn gan y Cyng W Roberts.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

*Cae Cymunedol* Mae'r Cadeirydd wedi siarad gyda Bronwen Morgan-James, aelod o bwyllgor y Cae Cymunedol. Mae'r pwyllgor yn ffeindio'n anodd i gynnal y cae oherwydd diffyg diddordeb oddi wrth aelodau'r Gymuned. Mae'r brwdfrydedd cylchwynol wedi mynd ar goll. Wnaeth y Cyng H Clayton awgrymu efallai fod y pandemig wedi effeithio ar y sefyllfa. Mae'r Cyng D M Evans wedi gwahodd Ymddiriedolwyr y Cae Cymunedol i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned er mwyn trafod y sefyllfa. Wnaeth hefyd wneud awgrymiad y dylai'r pwyllgor cadw ymlaen am flwyddyn i weld a wnaeth y sefyllfa wella a gwneud cais am gymorth ariannol oddi wrth y Cyngor yn y cyfamser.

*Taflen Gwybodaeth* Wnaeth y Cyng J S Jenkins adrodd fod yr ychwanegiad i'r daflen gyda'r argraffwyr ar hyn o bryd.

**Ethol Swyddogion**
Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn:-

Cadeirydd – Cyng Gari Jones
Is-gadeirydd – Cyng Wendy Roberts

**Ceisiadau Cynllunio**
A210305 – Castell Cwtch, Llangrannog – Ail doi adeilad allanol – Dim gwrthwynebiad.

**Gohebiaeth**
*CSC – Cais i gofnodi cilffordd ar agor i bob draffig a llwybrau troed cyhoeddus yn maes pario'r Ship, Llangrannog* Mae'r clerc wedi dosbarthu manylion y cais. Mi fydd trafodaeth yn cael ei gynnal yn y cyfarfod mis nesaf.

*Yswiriant BHIB* Adnewyddu Polisi Yswiriant - £387.81

*CSC Praesept* Nodwyd y bydd y praesept o £10,000 yn cael ei dalu mewn tri rhan daliad eleni. Mae un taliad eisoes wedi ei dderbyn ar y 30.4.21 ac bydd y taliadau eraill yn cael eu gwneud ar y 31.7.21 a 31.10.21.

**Taliadau**
Yswiriant BHIB £ 387.81
Shân Gwyn £266.00

**Unrhyw Fater Arall**
*Cyfrifon Blynyddol* Derbyniwyd y cyfrifon blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31.3.21 yn gywir. Mi fydd Mr Iori Evans yn cynnal yr archwiliad.

*Neuadd Pontgarreg* Wnaeth y Cyng D M Evans adrodd fod Pwyllgor y Neuadd yn ystyried pryd y byddant yn ail agor y Neuadd. Mae'r aelodau wedi gweithio drwy'r dogfennau priodol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau angenrheidiol. Mae yna groeso i unrhyw un i weld y dogfennau yma. Penderfynwyd cadw ymlaen i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn rhithiol nes y bydd y canllawiau wedi llacio'n mhellach.

*Maes Parcio 'Y Ship'* Nodwyd fod yna problemau phellach gyda'r maes parcio ac fod y pentref wedi derbyn rhagor o gyhoeddusrwydd gwael yn sgil hyn. Pendefynwyd ychwanegu'r mater at yr agenda nesaf.

.